## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu gorsaf cynhyrchu trydan llanwol a gweithfeydd ategol oddi ar arfordir Ynys Môn yn ardal Abraham's Bosom ac ar gyfer cysylltu'r gweithfeydd hynny drwy is-orsafoedd ar y tir â'r grid trydan.

Gellir edrych ar gopi o'r datganiad amgylcheddol, y cyfeirlyfr, planiau'r gweithfeydd alltraeth, planiau'r tir, planiau'r tir a'r trawsluniau a ragnodir gan reol 12 o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 (OS 2006/1466) ac a ardystir yn unol ag erthygl 46 o'r Gorchymyn hwn yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.